



Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

CYFARFOD	Cydbwyllgor GwE
DYDDIAD	22 Mai 2024
TEITL	Cyfrifon Terfynol GwE 2023/24 – Aildro Refeniw
PWRPAS	<ul style="list-style-type: none">• Diweddarau aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol terfynol cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2023/24.• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn.
AWDUR	Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd.

1. PENDERFYNIAD

Gofynnir i'r Cydbwyllgor:

- 1.1 **Nodi a derbyn Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw Cydbwyllgor GwE am 2023/24.**
- 1.2 Gymeradwyo trosglwyddiad ariannol o gronfa wrth gefn GwE i ariannu gorwariant o £77,323 yn 2023/24, ar ôl ystyried y prif wahaniaethau rhwng y gyllideb a'r gwir variant.
- 1.3 Gymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2023/24 fydd yn sail i'r datganiadau ariannol statudol GwE am y flwyddyn sydd i'w cynhyrchu, eu hardystio a'u cyhoeddi gan Adran Gyllid yr awdurdod lletya o fewn yr amserlen statudol.

2. CEFNIDIR

- 2.1 Mae cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw Cydbwyllgor GwE am 2023/24 yn ymddangos yn Atodiad 1.
- 2.2 Adroddir ar sefyllfa derfynol o orwariant net o £77,323 yn erbyn y gyllideb, sydd bennaf yn sgil gorwario ar y gyllideb staffio.
- 2.3 Yn yr adolygiad hyd at ddiwedd Rhagfyr 2023, adroddwyd ar orwariant o £59,531. Mae hyn yn golygu fod symudiad o £17,792 i'r hyn a ragwelwyd yn yr adroddiad blaenorol.
- 2.4 Mae Rhan 3 isod yn egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau.

3. AMRYWIADAU ARIANNOL

3.1 **Gweithwyr:**

Sefyllfa Terfynol: Gorwariant £59,884 Rhagfyr 2023: Gorwariant £46,173

Adroddir ar orwariant, mae cyllideb staffio GwE yn seiliedig ar y gallu i ariannu rhai aelodau o staff yn erbyn grantiau. Eleni, mae mwy o arian grant wedi mynd i'r ysgolion, sydd yn golygu fod y targed incwm heb ei gyfarch. Mae'r sefyllfa yn well yn sgil trosiant staff Rheolaeth a Gweinyddiaeth, yn bennaf dwy swydd wag sydd heb eu llenwi yn ystod y flwyddyn.

3.2 **Adeilad:**

Sefyllfa Terfynol: Gorwariant £35,431 Rhagfyr 2023: Gorwariant £6,228

Gorwario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, gyda'r prif reswm am hyn oherwydd ddiffyg denu incwm rhent gan ysgolion, awdurdodau lleol a defnydd mewnol o gynlluniau sy'n cael eu hariannu drwy grantiau, am ddefnydd o adeiladau GwE. Nid oes targed incwm ar gyfer hwn wedi ei gynnwys fel rhan o gyllideb GwE ar gyfer 2024/25.

3.3 **Cludiant:**

Sefyllfa Terfynol: Tanwariant (£21,400) Rhagfyr 2023: Tanwariant (£16,496)

Dim newid o sylwedd i'r hyn adroddwyd yn yr adolygiad hyd at ddiwedd Rhagfyr. Mae ffyrdd newydd o weithio sydd wedi ei ddatblygu yn ystod y cyfnod Covid wedi arwain at y tanwariant a nodir. Wrth edrych ymlaen i 2024/25, mae'r gyllideb wedi ei adolygu, ac wedi ei addasu i lefel mwy priodol.

3.4 **Cyflenwadau a Gwasanaethau:**

Sefyllfa Terfynol: Gorwariant £22,744 Rhagfyr 2023: Gorwariant £22,738

Dim newid o sylwedd i'r hyn adroddwyd yn flaenorol. Mae costau adnewyddu offer T.G wedi taro GwE eleni, mae elfen o'r gronfa tanwariant wedi ei bennu i'r pwrpas yma, gyda GwE yn cyfrannu swm i'r gronfa yn flynyddol.

3.5 Prosiectau Penodol:

Sefyllfa Terfynol: Gorwariant £24,688 Rhagfyr 2023: Niwtral

Yn adrodd ar orwariant o £24,688 yn erbyn gwariant gros o £12.8m ar grantiau, y gorwariant yn deillio o wario ar gynlluniau angenrheidiol yn ystod y flwyddyn, er mwyn rhoi cefnogaeth i ysgolion.

4. CRONFA TANWARIANT

4.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn ariannol 2023/24 oedd £298,633.

4.2 Mae'r gorwariant net o £77,323 i'w ariannu o gronfa wrth gefn, felly balans terfynol y gronfa ar ddiwedd 2023/24 yw £221,310.

ATODIADAU

Atodiad 1: Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2023/24.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

Y Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad